Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Canllawiau i Gyfeilyddion

Pan fydd yna ddarnau gosod, gwneud yn siŵr eich bod wedi gwneud eich gwaith cartref.

Gofyn i ysgrifenyddion yr Eisteddfodau i nodi ar y rhestr testunau, gyfeiriad a rhif ffôn y cyfeilydd, er mwyn i gystadleuwyr fedru cysylltu.

Gofyn i ysgrifenyddion yr Eisteddfodau nodi yn y rhestr testunau y byddai anfon copïau ymlaen i'r cyfeilydd yn fanteisiol.

Cadw golwg ar y cystadleuydd yn ogystal ag ar y copi o'r darn i wneud yn siŵr fod yna gyd-weithio hapus.

Cael naill ai rhywun i droi'r tudalennau pan fydd troad anodd, neu i gael copi wedi ei lungopïo a'i osod allan dudalen wrth dudalen.

Wrth gyfeilio i offeryn, gwneud yn siŵr fod yr offeryn yn cael ei diwnio i draw y piano cyn dechrau.

Pan fo plant yn canu, chwarae'n dawel a sensitif, i wneud yn siŵr nad yw'r piano'n boddi'r llais.

Fel arfer mae gofyn am ddau gopi – un i'r beirniad ac un i'r cyfeilydd. Gwneud yn siŵr fod y copi 'gorau' gan y cyfeilydd.

Wrth chwarae darn ar yr olwg gyntaf - astudio'r cyfarwyddiadau, yn enwedig y cyfarwyddiadau ail-ganu, nôl i'r dechrau, dyblu'r gytgan olaf ac yn y blaen cyn dechrau chwarae.

www.steddfota.org

Mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar i Neli Jones, Pontrhydfendigaid am ei harweiniad wrth baratoi'r daflen hon.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government